Cymraeg

Mynydd y Gwair Wind Farm
Community Liaison Group Minutes

19 January 2017

The third meeting of the Mynydd y Gwair Wind Farm Community Liaison Group

Attendees
Philip McDonnell, Chair
Brigitte Rowlands, West Glamorgan Commoners Association
Councillor Kevin Griffiths, Pontarddulais Town and Community Council
Paul Newman, Clerk, Pontlliw and Tircoed Community Council
Councillor Robert Jones, Mawr Community Council
Councillor Wyn Morgan, Penllergaer Community Council
Dean Howard, Highways & Transportation Street Works Manager, City and County of Swansea
Sergeant Philip Morris, South Wales Police
Emma North, Planning Officer, City and County of Swansea
David Owen, Planning Officer, City and County of Swansea
Neil Chambers, Contracts Manager, Dawnus Construction Ltd
Tim James, Construction Manager, Innogy Renewables UK Ltd
Jenny Cowley, Community Liaison Officer, Innogy Renewables UK Ltd
Mark Lewis, Security Concepts Advisor, Innogy Renewables UK Ltd
Angharad Davies, Cadno Communications Ltd
Sarah Jones, Cadno Communications Ltd

1. Welcome and introductions
The chair welcomed the group and noted there were several new attendees:

- Emma North, Planning Officer, City and County of Swansea
- David Owen, Planning Officer, City and County of Swansea
- Neil Chambers, Contracts Manager, Dawnus Construction Ltd
- Jenny Cowley, Community Liaison Officer, Innogy Renewables UK Ltd

The group introduced themselves. The chair explained that Welsh translation was offered at the previous two meetings but was not utilised, so a Welsh translator was not booked for this meeting. The chair encouraged members of the group to let the meeting organisers know should simultaneous Welsh translation be needed in future. A note will be added to future agendas to this effect. The approved minutes will be translated into Welsh and published in both English and Welsh on innogy's website.

2. Apologies

- Councillor Paul Northcote, Mawr Community Council
- Councillor Glyn Morgan, Mawr Community Council

3. Minutes of previous meeting and matters arising
The chair asked group members to check the minutes for accuracy and approve the minutes.

3.1. It was felt that item 4.3. does not fully reflect the discussion which took place. It was suggested that an additional point should be added to 4.3.: "It was suggested that applications are made to the CIF in stages, with areas local to the wind farm site having the opportunity to bid for funding before the wider community. It was felt that this could help to ensure that areas closest to the wind farm site benefit most from the CIF." This suggestion will be given serious consideration by innogy as innogy is committed to ensuring the communities closest to the site benefit significantly from the fund.

3.2. Subject to this amendment, the group agreed the minutes were a true reflection of the meeting and the minutes were signed off.

3.3. One of the members of the group reiterated that the Community Investment Fund (CIF) hasn't been well received by the local community who suspect that smaller local groups will lose out to

professional organisations. Reassurances were given that community councils would have further opportunities to meet with innogy's Community Investment Manager and that they would be supported to submit applications. It was noted that the CLG is not the forum to discuss the CIF.

3.4. The group requested a clear timetable for the CIF. Jenny Cowley will speak with Kathryn Harries and report back to the group with a rough timescale. It was requested that the community councils have the opportunity to feed into the timescale and plans.

4. Update from Tim James

4.1. Tim introduced Jenny Cowley. Jenny has been appointed as the Community Liaison Officer and will be the point of contact between the community and the project team. Queries should be reported to Jenny in the first instance by telephone 0800 0727604 or email mynyddygwair@innogy.com.

4.2. The archaeological investigation at Bolgoed Uchaf has been completed. The report is expected to be completed by the end of January, and it will be submitted to Swansea Council.

4.3. Mark Mealing has been appointed as the site manager.

4.4. Rhyan Law-Cooper has been appointed as the Ecological Clerk of Works. He is a local expert on common land.

4.5. The contract for the enabling works has been awarded to Dawnus Construction Ltd. Neil Chambers from Dawnus is the contract and project manager and will attend the CLG for the duration of the contract.

4.6. Senvion has been awarded the contract to supply and deliver the 16 wind turbines.

4.7. Tim provided an update on the final three of the pre-start planning conditions to be discharged:

- Discharge of planning condition 16 (species monitoring plan) – Natural Resources Wales has been consulted. This has now been agreed and will be discharged imminently.
- Discharge of planning condition 29 (appointment of an ecological clerk of works) – innogy has notified the Planning Officer of the appointment of a clerk of works. The Planning Officer will confirm receipt of the notification as a formality.
- Discharge of planning condition 33 (Fencing Scheme) – has recently been discharged.

4.8. Work is expected to start in early February. It had been expected to start in January however this has been pushed back due to delays with finalising the Enabling Works contract.

4.9. The Mynydd y Gwair website has been updated and can be accessed here. Tim has posted his first blog post on this website.

4.10. Western Power Distribution (WPD) has commenced service diversion works.

4.11. **Q. How long will WPD be working for?**

A. WPD are conducting trenching works and it is innogy's understanding that this work should only take a few days.

4.12. **Q. There is an access track on the plans that is on common land that has not been exchanged. Can innogy explain how it is dealing with this?**

Tim explained that the matter had not been officially notified to innogy. As things stand, innogy has all of the consents in place to proceed to construct the wind farm. David Owen said that Swansea City Council planning department are investigating a matter that had been brought to their attention relating to the access track consents and are having discussions with Welsh Government officials about this. He believed that the issue would be resolved shortly. Reassurances were given that this did not mean that the track could be re-aligned onto common land.

5. AOB

5.1. The chair encouraged the group to use the main point of contact in the first instance if they have any queries or concerns.

5.2. It was agreed that the draft meeting minutes will be circulated by email within ten days of the meeting.

6. Next meeting:

The next meeting will take place at 6pm on Thursday 9 March 2017 at Tircoed Village Hall.

Fferm Wynt Mynydd y Gwair
Cofnodion Grŵp Cyswllt Cymunedol

19 Ionawr 2017

Trydydd cyfarfod Grŵp Cyswllt Cymunedol Fferm Wynt Mynydd y Gwair

Yn bresennol
Philip McDonnell, Cadeirydd
Brigitte Rowlands, Cymdeithas Cominwyr Gorllewin Morgannwg
Cynghorydd Kevin Griffiths, Cyngor Tref a Chymuned Pontarddulais
Paul Newman, Clerc, Cyngor Cymuned Pontlliw a Thircoed
Cynghorydd Robert Jones, Cyngor Cymuned Mawr
Cynghorydd Wyn Morgan, Cyngor Cymuned Penlle'r-gaer
Dean Howard, Rheolwr Gwaith Stryd Priffyrdd a Chludiant, Dinas a Sir Abertawe
Sarjant Philip Morris, Heddlu De Cymru
Emma North, Swyddog Cynllunio, Dinas a Sir Abertawe
David Owen, Swyddog Cynllunio, Dinas a Sir Abertawe
Neil Chambers, Rheolwr Contractau, Dawnus Construction Ltd
Tim James, Rheolwr Adeiladu, Innogy Renewables UK Ltd
Jenny Cowley, Swyddog Cyswllt Cymunedol, Innogy Renewables UK Ltd
Mark Lewis, Ymgynghorydd Cysyniadau Diogelwch, Innogy Renewables UK Ltd
Angharad Davies, Cadno Communications Ltd
Sarah Jones, Cadno Communications Ltd

1. Croeso a chyflwyniadau
Croesawodd y Cadeirydd y grŵp a nododd bod sawl person yn mynychu'r cyfarfod am y tro cyntaf:

- Emma North, Swyddog Cynllunio, Dinas a Sir Abertawe
- David Owen, Swyddog Cynllunio, Dinas a Sir Abertawe
- Neil Chambers, Rheolwr Contractau, Dawnus Construction Ltd
- Jenny Cowley, Swyddog Cyswllt Cymunedol, Innogy Renewables UK Ltd

Cyflwynodd aelodau'r grŵp eu hunain. Eglurodd y cadeirydd bod cyfieithydd wedi'i gynnig yn y ddau gyfarfod blaenorol ond ni ddefnyddiwyd y gwasanaeth, felly ni chafodd cyfieithydd ei drefnu ar gyfer y cyfarfod hwn. Anogodd y cadeirydd aelodau'r grŵp i roi gwybod i drefnwyr y cyfarfod os oedd angen cyfieithu ar y pryd yn y dyfodol. Bydd nodyn yn cael ei ychwanegu at agenda'r cyfarfodydd yn y dyfodol i atgoffa'r grŵp. Bydd y cofnodion sydd wedi'u cymeradwyo yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg a'u cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg ar wefan innogy.

2. Ymddiheuriadau

- Cynghorydd Paul Northcote, Cyngor Cymuned Mawr
- Cynghorydd Glyn Morgan, Cyngor Cymuned Mawr

3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion yn codi
Gofynnodd y cadeirydd i aelodau'r grŵp wirio'r cofnodion o ran cywirdeb a chymeradwyo'r cofnodion.

3.1. Teimlwyd nad oedd eitem 4.3 yn adlewyrchu'r drafodaeth a gafwyd yn llawn. Awgrymwyd y dylid ychwanegu pwynt ychwanegol i 4.3: "Awgrymwyd y dylid gwneud ceisiadau i'r Gronfa Fuddsoddi Gymunedol mewn camau, gydag ardaloedd sy'n lleol i safle'r fferm wynt yn cael cyfle i wneud cais am arian cyn y gymuned ehangach. Teimlwyd y gallai hyn helpu i sicrhau bod yr ardaloedd sydd agosaf at safle'r fferm wynt yn elwa fwyaf oddi wrth y Gronfa Fuddsoddi Gymunedol." Bydd yr awgrym hwn yn cael ei ystyried yn ofalus gan innogy, gan fod innogy wedi ymrwymo i sicrhau bod cymunedau sydd agosaf at y safle yn elwa'n sylweddol o'r gronfa.

3.2. Yn amodol ar y gwelliant hwn, cytunodd y grŵp fod y cofnodion yn adlewyrchiad cywir o'r cyfarfod a chymeradwywyd y cofnodion.

3.3. Soniodd un o aelodau'r grŵp unwaith eto fod y Gronfa Fuddsoddi Gymunedol (CIF) heb dderbyn derbyniad gwresog gan y gymuned leol sy'n amau y bydd grwpiau llai yn colli allan i sefydliadau proffesiynol. Rhoddwyd sicrwydd y byddai gan gynghorau cymuned gyfleoedd pellach i gwrdd â Rheolwr Buddsoddi Cymunedol innogy, ac y byddent yn cael eu cefnogi i gyflwyno ceisiadau. Nodwyd nad y Grŵp Cyswllt Cymunedol oedd y lle i drafod y Gronfa Fuddsoddi Gymunedol.

3.4. Gofynnodd y grŵp am amserlen glir ar gyfer y Gronfa Fuddsoddi Gymunedol. Bydd Jenny Cowley yn siarad â Kathryn Harries ac yn adrodd nôl i'r grŵp gydag amserlen fras. Soniwyd y dylai'r cynghorau cymuned gael cyfle i gyfrannu at y cynlluniau a'r amserlen.

4. Diweddariad gan Tim James

4.1. Cyflwynodd Tim Jenny Cowley. Mae Jenny wedi'i phenodi fel Swyddog Cyswllt Cymunedol a hi fydd y pwynt cyswllt rhwng y gymuned a thîm y prosiect. Dylid anfon ymholiadau at Jenny yn y lle cyntaf drwy ffonio 0800 0727604 neu e-bostio mynyddygwair@innogy.com

4.2. Mae'r ymchwiliad archeolegol ym Molgoed Uchaf wedi'i gwblhau. Disgwylir i'r adroddiad gael ei gwblhau erbyn diwedd Ionawr, a bydd yn cael ei gyflwyno i Gyngor Abertawe.

4.3. Mae Mark Mealing wedi'i benodi'n rheolwr y safle.

4.4. Mae Rhyan Law-Cooper wedi'i benodi fel Clerc Ecolegol y Gwaith. Mae'n arbenigwr lleol ar dir comin.

4.5. Mae'r contract ar gyfer y gwaith galluogi wedi'i ddyfarnu i Dawnus Construction Ltd. Neil Chambers o Dawnus yw rheolwr y contract a'r prosiect a bydd yn mynychu'r Grŵp Cyswllt Cymunedol ar gyfer cyfnod y contract.

4.6. Dyfarnwyd y contract i gyflenwi a darparu 16 o dyrbinau gwynt i Senvion.

4.7. Rhoddodd Tim ddiweddariad ar y tri amod cynllunio terfynol i'w rhyddhau:

- Rhyddhau amod cynllunio 16 (cynllun monitro rhywogaethau) – ymgynghorwyd â Chyfoeth Naturiol Cymru. Cytunwyd ar hyn a bydd yn cael ei ryddhau'n fuan iawn.
- Rhyddhau amod cynllunio 29 (penodi clerc ecolegol y gwaith) - mae innogy wedi hysbysu'r Swyddog Cynllunio bod clerc y gwaith wedi'i benodi. Bydd y Swyddog Cynllunio yn cadarnhau derbyn yr hysbysiad yn ffurfiol.
- Rhyddhau amod cynllunio 33 (Cynllun Ffensio) - wedi'i ryddhau'n ddiweddar.

4.8. Disgwylir i'r gwaith ddechrau ym mis Chwefror. Roedd disgwyl i'r gwaith ddechrau ym mis Ionawr, serch hynny, mae hyn wedi'i wthio nôl oherwydd yr oedi wrth gwblhau contract y Gwaith Galluogi.

4.9. Mae gwefan Mynydd y Gwair wedi'i diweddaru a gellir ei gweld fan hyn. Mae Tim wedi rhoi ei flog cyntaf ar y wefan.

4.10. Mae Western Power Distribution (WPD) wedi dechrau'r gwaith o ddargyfeirio'r gwasanaeth.

4.11. **C. Am ba mor hir fydd WPD yn gweithio?**

B. Mae WPD yn cynnal gwaith ffosydd ac mae innogy yn cael ar ddeall y dylai'r gwaith yma gymryd ychydig ddiwrnodau'n unig.

4.12. **C. Mae trac mynediad ar y cynlluniau sydd ar dir comin ac sydd heb ei gyfnewid. A all innogy egluro sut mae'n delio â hynny?**

Eglurodd Tim nad oedd y mater wedi cael ei hysbysu'n swyddogol i innogy. Fel y mae pethau, mae gan innogy bob caniatâd sydd ei angen i symud ymlaen gyda'r gwaith o adeiladu'r fferm wynt. Dywedodd David Owen fod adran gynllunio Cyngor Dinas Abertawe yn ymchwilio mater sydd wedi dod i'w sylw ynglŷn â'r caniatâd ar gyfer y trac mynediad, a bod trafodaethau yn cael eu cynnal gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ynglŷn â hyn. Credai y byddai'r mater yn cael ei ddatrys yn fuan. Cafwyd sicrwydd nad oedd hyn yn golygu y gallai'r trac gael ei ail-osod ar dir comin.

5. Unrhyw fater arall

5.1. Cafodd y grŵp eu hannog gan y cadeirydd i ddefnyddio'r prif gyswllt yn y man cyntaf os oedd unrhyw ymholiadau neu bryderon.

5.2. Cytunwyd y byddai cofnodion drafft y cyfarfod yn cael eu hanfon ar e-bost o fewn deg diwrnod i'r cyfarfod.

6. Cyfarfod nesaf:

Cynhelir y cyfarfod nesaf am 6pm ar ddydd Iau 9 Mawrth 2017 yn Neuadd Bentref Tircoed.